WHC (2018) 031

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi: 18** Medi 2018

**STATWS: GWYBODAETH**

**CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD**

**Teitl: Lansio Llyfrau Darllen yn Well sy'n cael eu rhagnodi ar gyfer bobl sy'n byw gyda dementia**

**Dyddiad dod i ben / Adolygu** Amherthnasol

**I'w weithredu gan:**
*Meddygfeydd teuluol*

**Angen gweithredu erbyn: AMHERTHNASOL**

**Anfonwyd gan:**
**Dr Liz Davies, Uwch-swyddog Meddygol**

**Enw(au) Cyswllt Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru:**
*Ross Matthews, Yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ*
E-bost: mentalhealthandvulnerablegroups@gov.wales

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim

Annwyl Gydweithiwr

Diben y cylchlythyr hwn yw rhoi gwybod ichi am y Llyfrau Darllen yn Well sy’n cael eu rhagnodi ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia.

Gall y llyfrau hyn eu helpu i ddeall a rheoli eu hiechyd a'u llesiant. Maent yn darparu gwybodaeth a chymorth ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, eu perthnasau a'u gofalwyr.

Mae'r llyfrau, sydd wedi cael eu curadu'n benodol, yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru a'u darparu gan yr Asiantaeth Ddarllen mewn partneriaeth â Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr. Cafodd y llyfrau eu cymeradwyo gan weithwyr iechyd proffesiynol, ac mae'r elusen yn gweithio gyda Chyngor Llyfrau Cymru i sicrhau bod y llyfrau ar gael yn Gymraeg, am y tro cyntaf.

Lansiwyd y fenter yn swyddogol yng nghynhadledd y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Gwybodaeth Iechyd a Llyfrgelloedd a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2018, gyda'r nod o gefnogi cynllun newydd Llywodraeth Cymru, sef Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia.

Bydd y Llyfrau Darllen yn Well ar gael i'w benthyg am ddim o holl lyfrgelloedd Cymru o'r haf hwn ymlaen, er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor i'r rheini sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr, neu i unrhyw un sy'n pryderu am ei gof. Hefyd ar gael mae llyfrau ffuglen, cofiannau, a llyfrau o ffotograffau, fel sy'n cael eu defnyddio mewn therapi hel atgofion.

Gan gydnabod bod hwn yn wasanaeth iechyd cymunedol defnyddiol, mae'r cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan y rheini sydd â phrofiad o ddementia a'u gofalwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol, y prif elusennau dementia, a gweinidogion yn y llywodraeth.

**I gael rhagor o wybodaeth neu i ofyn am gopïau o'r taflenni ac adnoddau i gleifion, cysylltwch â'r Asiantaeth Ddarllen (readingwell@readingagency.org.uk)**

Dr Liz Davies

**Dr Liz Davies**
**Uwch-swyddog Meddygol / Pennaeth Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed**